Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Swydd Ddisgrifiad: Partner Busnes Adnoddau Dynol

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Partner Busnes Adnoddau Dynol |
| **Adran:** | Adnoddau Dynol |
| **Cyflog:** | £45,585 - £54,395 pro-rata, yn ogystal â buddion pensiwn USS sylweddol. |
| **Oriau gweithio:** | 35 awr yr wythnos |
| **Cytundeb:** | Cyfnod penodol tan 31/07/2025 |
| **Lleoliad:** | Campws Singleton a Champws y Bae, yn ôl yr angen |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth gefndir** | Dyma gyfle cyffrous i gael gwir effaith a Chwarae rôl hanfodol mewn arwain gweddnewid ar draws y Brifysgol. Fel rhan o'r Tîm Arwain AD, byddwch yn arddangos gwerthoedd y Brifysgol wrth i chi weithio gyda'ch Cyfadran a/neu swyddogaeth Gwasanaethau Proffesiynol dynodedig i sbarduno perfformiad busnes drwy bobl, Neu weithio gyda chydweithwyr yn adran ganolog Adnoddau Dynol i gyflenwi blaenoriaethau busnes strategol. Byddwch yn weladwy iawn ac yn modelu arweinyddiaeth ragorol; byddwch hefyd yn gyfrifol am adnabod, datblygu a chyflenwi atebion AD arloesol yn seiliedig ar olwg hirdymor o gyfeiriad y Brifysgol, o fewn corff cymhleth sy'n symud yn gyflym. Byddwch yn chwarae rôl feirniadol o ran sicrhau fod perfformiad Cyfadrannau, , Swyddogaethau Gwasanaethau Proffesiynol ac, weithiau, y busnes cyfan, bydd gennych ddeallusrwydd emosiynol cryf, sgiliau cyfathrebu eithriadol, ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i weithio gyda, a dylanwadu ar uwch randdeiliaid. Byddwch yn cael eich symbylu gan ganlyniadau ac yn eithriadol o drefnus, gan feddu ar y gallu i gynllunio darnau cymhleth o waith yn gyflym. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Datblygu perthnasoedd cryf gydag uwch arweinwyr a chydweithwyr AD i wella dealltwriaeth o lefelau gallu presennol o fewn eu Cyfadran/swyddogaeth yn erbyn gofynion y dyfodol.<br>2. Gweithio gydag uwch randdeiliaid i adnabod anghenion ar gyfer y Cyfadran/swyddogaeth. Bod yn atebol am ddatblygu cynllun gweithredu AD strategol lleol, a fydd yn cael ei gyflenwi'n brydlon ac i'r lefel gofynnol.<br>3. Yn gyfrifol am ddeilliannau AD, gan weithio mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr a chydweithwyr AD i ddatblygu a defnyddio dull gweithredu systematig ar gyfer adnabod problemau a datblygu atebion arloesol.<br>4. Arddangos dull gweithredu sy'n rhoi pwyslais ar welliant parhaus, gan ddefnyddio MI pobl ystyrlon i sicrhau bod atebion AD yn ychwanegu gwerth, yn unol â gweledigaeth y brifysgol, a symbylu perfformiad cynaliadwy i'r sefydliad a'i gwsmeriaid.<br>5. Arwain y gwaith o ddarparu dulliau gweithredu AD arloesol ac uchelgeisiol i ddefnyddio gallu perfformio'r presennol a'r dyfodol i'r eithaf drwy'r Cyfadran/swyddogaeth.<br>6. Defnyddio dull arwain sy'n rhoi pwyslais ar goetsio i alluogi rheolwyr llinell i fod yn atebol am gyflenwi canlyniadau AD o fewn eu Cyfadran/swyddogaeth.<br>7. Cynllunio, darparu a gwerthuso atebion hyfforddi a hwyluso i gynyddu sgiliau a gallu rheolwyr llinell a rhanddeiliaid eraill.<br>8. Bod yn eangfrydig a chanolbwyntio ar y dyfodol, gan ddefnyddio rhwydweithiau proffesiynol i feincnodi perfformiad, adnabod tueddiadau ac adnabod dulliau gweithredu arloesol a fydd yn gwireddu gweledigaeth 2020 y brifysgol.<br>9. Yn gyfrifol am gydweithio gyda chydweithwyr ar draws AD i ddatblygu syniadau a rennir, blaenoriaethau a gweithgareddau fel rhan o gyflenwi'r Strategaeth Bobl cyfundrefnol.<br>10. Chwilio'n barhaus am adborth a gweithredu arno i ddysgu a datblygu fel gweithiwr proffesiynol, gan gymryd cyfrifol am DPP eich hun. Fel Adran sy'n perfformio ar lefel uchel, mae AD yn gwella'n barhaus a disgwylir i holl weithwyr proffesiynol AD ymgysylltu â rolau amgen mewn meysydd AD eraill neu'r Brifysgol ehangach, er mwyn sicrhau twf personol a phroffesiynol neu lle bo angen hynny am resymau gweithredol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 11. Ymgysylltu'n llawn â pholisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol.<br>13. Arwain ar welliant parhaus perfformiad iechyd a diogelwch drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a datblygiad diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>14. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Cyfadran/Adran neu ddirprwy enwebedig y'u disgwylir o fewn diffiniad y radd.<br>15. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arwain** | **Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn datblygu ein hunan a'u timau trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n cyflenwi canlyniadau llwyddiannus trwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys ein pobl wrth ddatblygu gweledigaeth i'r dyfodol ac wrth alluogi arloesedd a newid, gan wella perfformiad y Brifysgol, timau ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i gydweithio a gweithio ar draws swyddogaethau i gyflenwi canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n arddangos cydraddoldeb, hybu ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, am gyfleu'r "darlun mawr" a harneisio syniadau a chyfleoedd i gyflawni gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn Gofalu**<br>Rydym yn creu amgylcheddau sy'n adnabod, deall ac yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, cyd-weithwyr, partneriaid allanol a'r cyhoedd). Rydym yn cymell ac ysbrydoli ein timau i ddarparu'r safonau uchaf posibl o ofal personol ac o wneud hynny, cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br><br>**Gwerthoedd Arwain:**<br>1. Arddangos tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflenwi canlyniadau llwyddiannus trwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio timau i lwyddo, ac ymfalchïo mewn cyflenwi gwasanaethau ac atebion proffesiynol.<br>2. Y gallu i alluogi timau i gydweithio a gweithio ar draws swyddogaethau i gyflenwi canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid, ac i greu amgylcheddau sy'n arddangos cydraddoldeb, hybu ymddiriedaeth, parch a her.<br>3. Arddangos profiad o greu amgylcheddau sy'n adnabod, deall ac yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni anghenion y cwsmer, ac o gymell ac ysbrydoli timau i ddarparu'r safonau uchaf posibl o ofal personol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>• Cymhwyster aelodaeth CIPD cyfredol neu brofiad perthnasol sylweddol gydag ymrwymiad i gymhwyso o fewn y 24 mis nesaf.<br><br>**Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>• Tystiolaeth o arweinyddiaeth AD llwyddiannus, o ddatblygu a gweithredu AD strategol ar lefel trefniadol neu leol, ac o ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol i gefnogi'r gweithrediad hwnnw.<br>• Tystiolaeth ddangosadwy of gyflenwi cynllun gweithredu AD i'r lefel a'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn atebol am fethu cyflenwi, a chan roi cynllun gweithredu priodol yn ei le. |

- Tystiolaeth o  ddefnyddio egwyddorion gwella parhaus a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol pobl ystyrlon i adolygu'r agenda AD er mwyn ychwanegu gwerth trefniadol.
- Record ddangosadwy o fodelu ymddygiadau arwain ar lefel uwch, gan ddangos y dewrder a'r hyder i siarad yn fedrus a defnyddio arbenigedd proffesiynol i herio eraill, hyd yn oed pan fydd gwrthwynebiad.
- Tystiolaeth o ddefnyddio dull arwain sy'n rhoi pwyslais ar goetsio i adeiladu perfformiad a symbylu perfformiad.
- Tystiolaeth o gynllunio, darparu a gwerthuso ymyriadau hyfforddi a hwyluso sy'n cael effaith ac sy'n cyflenwi canlyniadau o safon uchel i gynyddu sgiliau a gallu rheolwyr llinell a rhanddeiliaid eraill.
- Tystiolaeth o arwain tîm yn llwyddiannus, gan greu diwylliant sy'n cymell eraill i fod yn arloesol, i ganolbwyntio ar ganlyniadau a pherfformio'n effeithiol i sicrhau bod y sefydliad yn tyfu i'r eithaf.
- Tystiolaeth o weithio gyda chymuned AD i ddatblygu syniadau a rennir, blaenoriaethau a gweithgareddau fel rhan o gynllun a strategaeth drefniadol.
- Tystiolaeth o graffu ar y gorwel, gan ddefnyddio rhwydweithiau proffesiynol i feincnodi perfformiad, adnabod tueddiadau ac adnabod dulliau gweithredu arloesol.
- Tystiolaeth ddangosadwy o ddatblygiad proffesiynol parhaus, o chwilio am adborth a gweithredu arno i ddysgu a datblygu fel gweithiwr proffesiynol.

**Meini Prawf Dymunol:**

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg

**Rhagor o wybodaeth:**

Ar gyfer ymholiadau anffurfiol, cysylltwch â: Martyn Lewis, Pennaeth Partneru Busnes: m.a.lewis@swansea.ac.uk

- Dyddiad llunio rhestr fer: 8 Ebrill 2024
- Dyddiad Cyfweliad: 10 ac 11 Ebrill 2024